Undeb Ewropeaidd / European Union
Llywodraeth Cymru / Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop / European Regional Development Fund

### GWELLIANNAU'R A40 PENBLEWIN I GROESFFORDD MAENCOCH

# DIGWYDDIAD YMGYNGHORI CYHOEDDUS

2 Medi 2019

## CROESO

Rydym wedi cynnal dwy Arddangosfa Gwybodaeth i'r Cyhoedd mewn perthynas â'r opsiynau a roddwyd ar y rhestr fer ar gyfer y Cynllun yn ystod Ebrill a Mai 2019. Diolchwn i chi am yr adborth a ddaeth i law hyd yma, ac rydym wedi gwrando ar eich awgrymiadau, pryderon a dewisiadau.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal i geisio eich barnau ar y gwelliannau arfaethedig rhwng Cylchfan Penblewin a Chroesffordd Maencoch ar yr A40, Sir Benfro. Fel rhan o'r ymgynghoriad, rydym yn eich gwahodd i rannu eich barn ar: a) yr ateb a ffefrir a nodwyd yn y lle cyntaf, b) gwelliannau y gellid eu gwneud i'r ateb a ffefrir a c) mesurau teithio llesol y gellid eu hymgorffori o bosibl.

Er eglurder, mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud yn benodol â Gwelliannau'r A40 Penblewin i Groesffordd Maencoch ac nid Gwelliannau'r A40 Llanddewi Felffre i Benblewin.

Pe baech yn dymuno cael gwybodaeth yn gyson, cofnodwch eich presenoldeb gan ddefnyddio cofrestr yr arddangosfa sydd i'w cael wrth y fynedfa.

Byddwch gystal ag edrych ar y byrddau arddangos. Mae staff o Lywodraeth Cymru a thîm y prosiect yma i'ch helpu i ddeall y cynigion ac ateb unrhyw ymholiadau a all fod gennych.

Mae gwybodaeth am y prosiect ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru hefyd:

https://llyw.cymru/a40-penblewin-i-groesffordd-maencoch

### A40 PENBLEWIN TO REDSTONE CROSS IMPROVEMENTS

# PUBLIC CONSULTATION EVENT

2 September 2019

## WELCOME

We have held two Public Information Exhibitions in relation to the shortlisted options for the Scheme during April and May 2019. We thank you for the feedback received to date and have listened to your suggestions, concerns and preferences.

This consultation is being held to seek your views on the proposed improvements between Penblewin Roundabout and Redstone Cross on the A40, Pembrokeshire. As part of the consultation, we invite you to share your views on: a) the initial identified preferred solution, b) enhancements that could be made to the preferred solution and c) active travel measures that could be potentially incorporated.

For clarity, this consultation is specifically in relation to the A40 Penblewin to Redstone Cross Improvements and not the A40 Llanddewi Velfrey to Penblewin Improvements.

Should you wish to stay informed, please record your attendance using the exhibition register found at the entrance.

Please view the exhibition display boards. Staff from Welsh Government and the project team are here to help you understand the proposals and answer any queries you may have.

Information about this project is available on the Welsh Government website:

https://gov.wales/a40-penblewin-redstone-cross

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**
**European Regional Development Fund**

## GWELLIANNAU'R A40 PENBLEWIN I GROESFFORDD MAENCOCH

## A40 PENBLEWIN TO REDSTONE CROSS IMPROVEMENTS

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# OPSIYNAU AC ARFARNU LLWYBRAU OPSIWN 1

# ROUTE OPTIONS AND APPRAISAL OPTION 1

### Opsiwn 1A – Northern Route with staggered T-junction at Redstone Cross

- Diogelwch gwell wrth gyffyrdd.
- Cysylltedd lleol a chenedlaethol gwell.
- Effaith ar dreftadaeth ddiwylliannol – beddrodau.
- Effaith ar y dirwedd ac effaith weledol.
- Effaith ar fioamrywiaeth.

### Option 1A - Northern Route (including Redstone Cross Junction)


- Improved junction safety.
- Improved local and national connectivity.
- Impact on cultural heritage - barrows.
- Impact on landscape and visual.
- Impact on biodiversity.

### Opsiwn 1B – Llwybr Gogleddol heb gyffordd wrth Groesffordd Maencoch


- Darpariaeth ychwanegol i oddiweddyd.
- Darparu trosbont ar y B4313 i gynnal cysylltedd lleol o'r gogledd-de a gwella diogelwch.
- Effaith ar dreftadaeth ddiwylliannol – beddrodau.
- Effaith ar y dirwedd ac effaith weledol.
- Effaith ar gysylltedd lleol i gefnffordd yr A40.
- Effaith ar fioamrywiaeth.

### Option 1B - Northern Route (no Redstone Cross Junction)


- Additional overtaking provision.
- Provision of overbridge on B4313 to maintain north-south local connectivity and improve safety.
- Impact on cultural heritage - barrows.
- Impact on landscape and visual.
- Impact on local connectivity to A40 trunk road.
- Impact on biodiversity.




TRAWSTORIAD ARFEROL 1 - PRIFFORDD MEWN TORIAD
TYPICAL CROSS SECTION 1 - HIGHWAY IN CUTTING




TRAWSTORIAD ARFEROL 2 - PRIFFORDD AR ARGLAWDD
TYPICAL CROSS SECTION 2 - HIGHWAY ON EMBANKMENT




### Llwybr Presennol yr A40

- Bydd yn aros er mwyn rhoi mynediad i eiddo a chysylltu â ffyrdd lleol.

### Existing A40

- This will remain for access to properties and for local road connectivity.

### Cylchfan Penblewin

- Cylchfan Penblewin wedi'i hailfodelu.
- Mynediad i'r ardal gorffwys ac eiddo preswyl ar hyd yr A40 presennol o'r cylchdro.

### Penblewin Roundabout

- Penblewin Roundabout remodelled.
- Access to rest area and properties along existing A40 from roundabout.

### Datblygu'r Opsiynau

Rydym wedi datblygu ac arfarnu nifer sylweddol o atebion posibl sy'n ffurfio'r rhestr hir o opsiynau yn astudiaeth WelTAG. Mae'r rhestr isod yn amlinellu'r opsiynau hyn ac yn darparu disgrifiad byr ynglyn â pham y cafodd rhai eu diystyru:

- Trafnidiaeth Gyhoeddus / teithio aml-fodel – Cafodd ei ddiystyru am nad oedd yn mynd i'r afael â phroblemau a nodwyd o wella diogelwch wrth y gyffordd neu wella'r rhwydwaith ffyrdd strategol.
- Gwelliannau Ar-lein – cafodd ei ddiystyru oherwydd: natur islaw safon y briffordd bresennol, bodloni ychydig o amcanion y Cynllun, effaith ar eiddo a chyfyngiadau adeiladu/ymarferoldeb adeiladu.
- Gwelliannau i Gyffyrdd – Cylchfan / Cyffordd-T Groesgam – Cafodd atebion cylchfan eu diystyru oherwydd eu heffaith ar y rhwydwaith ffordd strategol gan y byddent yn arafu holl draffig yr A40, sy'n cael effaith ar amserau siwrneiau, swn ac ansawdd yr aer.
- Atebion y Llwybr Deheuol - Cafodd dau opsiwn y llwybr Deheuol eu rhoi ar y rhestr fer
- Atebion y Llwybr Gogleddol – Cafodd dau opsiwn y llwybr Gogleddol eu rhoi ar y rhestr fer
- Mesurau atebol Teithio Llesol, cerdded, beicio a marchogaeth - Gallai pob opsiwn arfaethedig gynnwys mesurau teithio llesol ategol. Ar eu pennau'u hunain, ni fyddai'r mesurau hyn yn datrys yr holl broblemau nac yn bodloni'r holl amcanion.

### Option Development

We have developed and appraised a significant number of potential solutions which form the long list of options within the WelTAG study. The list below outlines these options and provides a brief description of why some were discounted:

- Public Transport / multi-model travel – Ruled out due to not addressing the identified objectives of improving safety at the junction or improving the strategic road network.
- Online Improvements – ruled out due to: the substandard nature of the existing highway, few of the Scheme objectives being met, impact on property and construction/buildability constraints.
- Junction Improvements – Roundabout / Staggered T-Junction – Roundabout solutions were ruled out due to their impact upon the strategic road network as they would slow all A40 traffic, which has an impact upon journey times, noise and air quality.
- Southern Route Solutions – Two Southern route options shortlisted
- Northern Route Solutions – Two Northern route options shortlisted
- Complementary Active Travel, walking, cycling and horse-riding measures – Each proposed option could include complementary active travel measures. In isolation these measures would not solve all the problems or meet all of the objectives.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**
**European Regional Development Fund**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## GWELLIANNAU'R A40 PENBLEWIN I GROESFFORDD MAENCOCH

# OPSIYNAU AC ARFARNU LLWYBRAU OPSIWN 2

## A40 PENBLEWIN TO REDSTONE CROSS IMPROVEMENTS

# ROUTE OPTIONS AND APPRAISAL OPTION 2

### Opsiwn 2A – Llwybr Deheuol (gyda chyffordd-T groesgam wrth Groesffordd Maencoch)

- Diogelwch gwell wrth gyffyrdd.
- Cysylltedd lleol a chenedlaethol gwell.
- Effaith ar y dirwedd ac effaith weledol.
- Mewnforio cryn dipyn o ddeunydd ar gyfer adeiladu arglawdd.
- Effaith ar fioamrywiaeth.

### Option 2A - Southern Route (with Redstone Cross Junction)


- Improved junction safety.
- Improved local and national connectivity.
- Impact on landscape and visual.
- Significant import of material for embankment construction.
- Impact on biodiversity.

### Opsiwn 2B- Llwybr Deheuol (heb gyffordd wrth Groesffordd Maencoch)


- Darpariaeth ychwanegol i oddiweddyd.
- Darparu trosbont ar y B4313 i gynnal cysylltedd lleol o'r gogledd-de a gwella diogelwch.
- Lleihad ymylol yn safon dyluniad y priffordd (wrth gymharu gyda opsiynau eraill).
- Cysylltedd lleol i'r A40 wedi ei ddarparu wrth Cylchfan Penblewin.
- Effaith llai ar dirlun a effeithiau gweledol.
- Effaith ar fioamrywiaeth.

### Option 2B – Southern Route (no Redstone Cross Junction)


- Additional overtaking provision.
- Provision of overbridge on B4313 to maintain north-south local connectivity and improve safety.
- Marginal reduction in mainline highway standard (when compared to other options).
- Local connectivity to A40 provided at Penblewin Roundabout.
- Reduced impact on landscape and visual.
- Impact on biodiversity.




TRAWSTORIAD ARFEROL 1 - PRIFFORDD MEWN TORIAD
TYPICAL CROSS SECTION 1 - HIGHWAY IN CUTTING




TRAWSTORIAD ARFEROL 2 - PRIFFORDD AR ARGLAWDD
TYPICAL CROSS SECTION 2 - HIGHWAY ON EMBANKMENT




### Llwybr Presennol yr A40

- Bydd yn aros er mwyn rhoi mynediad i eiddo a chysylltu â ffyrdd lleol.

### Existing A40

- This will remain for access to properties and for local road connectivity.

### Cylchfan Penblewin

- Cylchfan Penblewin wedi'i hailfodelu.
- Mynediad i'r ardal gorffwys ac eiddo preswyl ar hyd yr A40 presennol o'r cylchdro.

### Penblewin Roundabout

- Penblewin Roundabout remodelled.
- Access to rest area and properties along existing A40 from roundabout.

### Datblygu'r Opsiynau

Rydym wedi datblygu ac arfarnu nifer sylweddol o atebion posibl sy'n ffurfio'r rhestr hir o opsiynau yn astudiaeth WelTAG. Mae'r rhestr isod yn amlinellu'r opsiynau hyn ac yn darparu disgrifiad byr ynglyn â pham y cafodd rhai eu diystyru:

- Trafnidiaeth Gyhoeddus / teithio aml-fodel – Cafodd ei ddiystyru am nad oedd yn mynd i'r afael â phroblemau a nodwyd o wella diogelwch wrth y gyffordd neu wella'r rhwydwaith ffyrdd strategol.
- Gwelliannau Ar-lein – cafodd ei ddiystyru oherwydd: natur islaw safon y briffordd bresennol, bodloni ychydig o amcanion y Cynllun, effaith ar eiddo a chyfyngiadau adeiladu/ymarferoldeb adeiladu.
- Gwelliannau i Gyffyrdd – Cylchfan / Cyffordd-T Groesgam – Cafodd atebion cylchfan eu diystyru oherwydd eu heffaith ar y rhwydwaith ffordd strategol gan y byddent yn arafu holl draffig yr A40, sy'n cael effaith ar amserau siwrneiau, swn ac ansawdd yr aer.
- Atebion y Llwybr Deheuol - Cafodd dau opsiwn y llwybr Deheuol eu rhoi ar y rhestr fer
- Atebion y Llwybr Gogleddol – Cafodd dau opsiwn y llwybr Gogleddol eu rhoi ar y rhestr fer
- Mesurau atebol Teithio Llesol, cerdded, beicio a marchogaeth - Gallai pob opsiwn arfaethedig gynnwys mesurau teithio llesol ategol. Ar eu pennau'u hunain, ni fyddai'r mesurau hyn yn datrys yr holl broblemau nac yn bodloni'r holl amcanion.

### Option Development

We have developed and appraised a significant number of potential solutions which form the long list of options within the WelTAG study. The list below outlines these options and provides a brief description of why some were discounted:

- Public Transport / multi-model travel – Ruled out due to not addressing the identified objectives of improving safety at the junction or improving the strategic road network.
- Online Improvements – ruled out due to: the substandard nature of the existing highway, few of the Scheme objectives being met, impact on property and construction/buildability constraints.
- Junction Improvements – Roundabout / Staggered T-Junction – Roundabout solutions were ruled out due to their impact upon the strategic road network as they would slow all A40 traffic, which has an impact upon journey times, noise and air quality.
- Southern Route Solutions – Two Southern route options shortlisted
- Northern Route Solutions – Two Northern route options shortlisted
- Complementary Active Travel, walking, cycling and horse-riding measures – Each proposed option could include complementary active travel measures. In isolation these measures would not solve all the problems or meet all of the objectives.

# GWELLIANNAU'R A40 PENBLEWIN I GROESFFORDD MAENCOCH

# A40 PENBLEWIN TO REDSTONE CROSS IMPROVEMENTS



## Arfarniad o'r opsiynau

Fel rhan o'r Astudiaeth WelTAG gyfredol, mae arfarniad yn cael ei gynnal o'r opsiynau. Mae hyn yn cynnwys arfarniad o'r opsiynau llwybrau yn erbyn: Amcanion y Cynllun, ystyriaethau cymdeithasol a diwylliannol, ystyriaethau amgylcheddol ac ystyriaethau economaidd. Cynhelir yr arfarniadau yn erbyn y Senario Gwneud y Lleiaf Posibl, sy'n adlewyrchu'r sefyllfa bresennol gydag ymyrraeth gyfyngedig ac yn cynnwys unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae'r arfarniad yn ystyried hefyd sut mae pob opsiwn yn perfformio o ran datrys y problemau dynodedig.

## Yr ateb a ffefrir

O ystyried yr angen dynodedig am Cynllun a chan ystyried canfyddiadau diweddaraf astudiaeth WelTAG sy'n cael ei chynnal ar hyn o bryd, ystyrir mai Opsiwn 2B (Llwybr Deheuol heb gyffordd wrth Groesffordd Maencoch) yw'r ateb gorau ar hyn o bryd. Opsiwn 2B sy'n mynd i'r afael orau â'r problemau, sy'n cyflawni'r amcanion orau ac yn perfformio orau yn erbyn mwyafrif y meini prawf arfarnu diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd. Gwerthfawrogir y byddai rhai effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd fel rhan o'r ateb. Hefyd, mae Opsiwn 2B wedi'i gydnabod fel yr ateb a ffefrir yn ystod digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid sydd wedi'u cynnal hyd yma. Mae hyn yn dynodi mai hwn sy'n debygol o fod yn fwyaf derbyniol i: gymunedau lleol, pobl a busnesau Cymru.

Fe wnaeth adborth o'r Arddangosfeydd Gwybodaeth i'r Cyhoedd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid godi nifer o bryderon ynglyn â'r ateb hwn. Crynhoir y rhain isod:

- Byddai llwybrau mynediad at rai eiddo a busnesau lleol (yn sgil diddymu cyffordd Croesffordd Maencoch) yn arwain at ddargyfeirio'n barhaol y cerbydau sy'n teithio i'r gorllewin ac o'r gorllewin ar hyd yr A40 e.e. Hwlffordd.
- Effaith bosibl llifoedd traffig drwy Arberth (yn sgil diddymu cyffordd Croesffordd Maencoch), yn enwedig ar system unffordd Arberth.
- Effaith ar wasanaethau bysiau lleol.

### GRADDFA ASESU SAITH PWYNT / SEVEN POINT ASSESSMENT SCALE

| | | |
|---|---|---|
| Buddiol Mawr | +++ | Large Beneficial |
| Cymedrol Fuddiol | ++ | Moderate Beneficial |
| Ychydig yn Fuddiol | + | Slight Beneficial |
| Niwtral | 0 | Neutral |
| Ychydig yn Niweidiol | - | Slightly Adverse |
| Cynedrol Niweidiol | -- | Moderate Adverse |
| Niweidiol Mawr | --- | Large Adverse |

### TABL CRYNO'R ARFARNIAD / APPRAISAL SUMMARY TABLE

| Amcanion | Opsiwn / Option | | | | Objectives |
|---|---|---|---|---|---|
| | 1A | 1B | 2A | 2B | |
| **A1**- Gwella gwydnwch y rhwydwaith a gwella hygyrchedd ar hyd coridor trafnidiaeth y dwyrain-gorllewin er mwyn cyrraedd cyrchfannau allweddol o safbwynt cyflogaeth, cymunedau a thwristiaeth. | ++ | +++ | ++ | +++ | **O1** - To enhance network resilience and improve accessibility along the east-west transport corridor to key employment, community and tourism destinations. |
| **A2** - Gwella ffyniant a darparu gwell mynediad i dref sirol Hwlffordd, Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau a phorthladdoedd Abergwaun, Aberdaugleddau a Doc Penfro yng Ngorllewin Cymru. | + | ++ | + | ++ | **O2** - To improve prosperity and provide better access to the county town of Haverfordwest, the Haven Enterprise Zone and the West Wales ports at Fishguard, Milford Haven and Pembroke Dock. |
| **A3** - Lleihau hollti cymunedol a chreu buddion o ran iechyd ac amwynderau. | + | ++ | + | ++ | **O3** - To reduce community severance and provide health and amenity benefits. |
| **A4** - Gwella diogelwch wrth Gyffordd Croesffordd Maencoch (a diogelwch canfyddedig) a lleihau nifer a difrifoldeb gwrthdrawiadau ar brif linell yr A40. | ++ | +++ | ++ | +++ | **O4** - To improve the Redstone Cross Junction safety (and perceived safety) and reduce the number and severity of A40 mainline collisions. |
| **A5** - Hyrwyddo teithio llesol drwy feicio, marchogaeth a cherdded er mwyn cynnig cyfleoedd i bobl fyw bywydau iach. | 0 | + | 0 | + | **O5** - To promote active travel by cycling, horse riding and walking to provide opportunities for healthy lifestyles. |
| **A6** - Cyflawni cynllun sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac sy'n integreiddio â'r rhwydwaith trafnidiaeth lleol er mwyn cysylltu cymunedau lleol yn well â chanolfannau trafnidiaeth allweddol. | + | + | + | + | **O6** - To deliver a scheme that promotes social inclusion and integrates with the local transport network to better connect local communities to key transport hubs. |
| **A7** - Cyflawni prosiect sy'n gynaliadwy o fewn Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd eang, gan gymryd camau i leihau neu wrthbwyso gwastraff a charbon. | -- | -- | -- | - | **O7** - To deliver a project which is sustainable in a globally responsible Wales, taking steps to reduce or offset waste and carbon. |
| **A8** - Rhoi ystyriaeth ofalus i effaith trafnidiaeth ar yr amgylchedd a chyflwyno gwelliannau lle bo hynny'n ymarferol. | -- | -- | -- | -- | **O8** - Give due consideration to the impact of transport on the environment and provide enhancement when practicable. |

## Appraisal of options

As part of the ongoing WelTAG Study, an appraisal of the options is being undertaken. This includes an appraisal of the route options against the: Scheme objectives, social and cultural considerations, environmental considerations and economic considerations. The appraisals are undertaken against the Do Minimum Scenario, which reflects the existing situation with limited intervention and includes any future development identified within the Local Development Plan (LDP). The appraisal also considers how each option performs in solving the identified problems.

## Preferred route

Given the identified need for the Scheme and taking into account the latest findings of the WelTAG study currently being undertaken, Option 2B (Southern route without a Redstone Cross junction) is currently considered to be the best solution. Option 2B best addresses the problems, best achieves the objectives and performs best against the majority of cultural, social and economic appraisal criteria. It is appreciated that there would be some adverse impacts on the environment as part of the solution. Option 2B has also been recognised as the preferred solution during public and stakeholder engagement that has been undertaken to date. This indicates it is likely to be the most acceptable to: local communities, the people and businesses of Wales.

Feedback from the Public Information Exhibitions and stakeholder engagement raised several concerns to this solution. These are summarised below:

- Access routes to some local properties and businesses (due to the removal of Redstone Cross junction) would lead to a permanent diversion for vehicles travelling to and from the west along the A40 e.g. Haverfordwest.
- The potential impact of traffic flows through Narberth (due to the removal of the Redstone Cross junction), particularly on the Narberth one-way system.
- Impact on the local bus services.

## BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

| Gweithgaredd | Dyddiadau Allweddol | Beth mae Hyn yn ei olygu? |
|---|---|---|
| Cyhoeddi'r Llwybr a Ffefrir | Yr Hydref 2019 | Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn ystyried yr holl adborth ac yn cynnal arfarniadau pellach o'r opsiynau er mwyn helpu nodi opsiwn a ffefrir. Byddai llwybr a ffefrir yn cael ei gyhoeddi. |
| Cyhoeddi Gorchmynion drafft a Datganiad Amgylcheddol | Dechrau 2020 | Os bydd angen, bydd y rhain yn pennu'r tir a fyddai ei angen i adeiladu'r Cynllun a'r gwaith lliniaru amgylcheddol cysylltiedig. Byddai'n nodi manylion mynedfeydd lleol a darpariaeth Mynedfeydd Preifat. Caiff y cyhoedd gyfle wedyn i wrthwynebu neu gefnogi'r Cynllun yn ffurfiol, neu awgrymu cynnig amgen. |
| Ymchwiliad Cyhoeddus Posibl | Haf 2020 | Os bydd angen Ymchwiliad Cyhoeddus, byddai Arolygydd annibynnol yn gwrando tystiolaeth, gerbron y cyhoedd, gan bartïon a rhanddeiliaid â buddiant. Byddai'r Arolygydd yn gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru ar sut i fwrw ymlaen. |
| Penderfyniad Gweinidogion Cymru i wneud y Gorchmynion | Dechrau 2021 | Byddai Gweinidogion Cymru yn penderfynu p'un ai i wneud Gorchmynion Statudol i fwrw ymlaen ag adeiladu'r Cynllun. |
| Penodi Contractwr Dylunio ac Adeiladu | Dechrau 2021 | Byddai contractwr yn ymgymryd â dyluniad manwl ac adeiladu'r Cynllun. |
| Dechrau Adeiladu ar y Safle | Haf 2021 | Byddai'r gwaith adeiladu yn dechrau. |
| Gwelliannau'r | Diwedd 2022 | Byddai'r ateb a ffefrir yn cael ei roi ar waith a'i agor i'r cyhoedd. |

## WHAT HAPPENS NEXT?

| Activity | Key Dates | Description |
|---|---|---|
| Publish Preferred Route | Autumn 2019 | Following this consultation, we will consider all feedback and undertake further option appraisals to help identify a preferred option. A preferred route would be announced. |
| Publication of draft Orders and an Environmental Statement | Early 2020 | If required, these will set out the land that would be required to build the Scheme and the environmental mitigation work that would be involved. It would detail local accesses and provision of Private Means of Access. The public will then have the opportunity to formally object or support the Scheme or suggest an alternative. |
| Potential Public Inquiry | Summer 2020 | If a Public Inquiry is required, an independent Inspector would hear evidence, in front of the public, from interested parties and stakeholders. The Inspector would make a recommendation to the Welsh Ministers on how to proceed. |
| Welsh Ministers' Decision to make the Orders | Early 2021 | The Welsh Ministers would decide whether to make Statutory Orders to go ahead with the construction of the Scheme. |
| Appoint Design & Build (D&B) Contractor | Early 2021 | A contractor would undertake detailed design and construction of the Scheme. |
| Commence Construction on Site | Summer 2021 | Construction works would start. |
| A40 Improvements Open | Late 2022 | The preferred solution would be implemented and opened to the public. |

# DIOLCH

Diolch i chi am eich amser heddiw, gobeithiwn y bu'r wybodaeth o gymorth i chi.

Os nad ydych wedi dod o hyd i'r hyn rydych chi'n chwilio amdano, neu os oes unrhyw gwestiynau gennych o hyd, siaradwch ag aelod o'n tîm prosiect cyn i chi adael.

## Hoffem gael eich barn

Mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal i geisio eich barn ar y gwelliannau arfaethedig rhwng Cylchfan Penblewin a Chroesffordd Maencoch ar yr A40, Sir Benfro. Rydym yn eich gwahodd i rannu eich barn a darparu adborth pellach, cyn i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniad ar y llwybr a ffefrir. Gallwch gynnig sylwadau mewn sawl ffordd:

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a ddarperir ar ddiwedd y ddogfen ymgynghori hon, a gallwch ei hanfon yn ôl atom i'r: FREEPOST RTLG-KURC-ELKJ, Prosiectau Seilwaith – Trafnidiaeth, LLYWODRAETH CYRMU, PARC CATHAYS, CAERDYDD CF10 3NQ

Neu anfonwch hi drwy'r e-bost i A40enquiries@arup.com

Llenwch y ffurflen ymateb ar-lein: https://llyw.cymru/gwelliannaur-a40-penblewini-groesffordd-maencoch-trosolwg-0

## Sut i gael gwybod mwy

Byddai Martin Gallimore (Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd) yn hapus i helpu gydag unrhyw gwestiynau a allai fod gennych, ac mae ar gael yn Neuadd Bentref Llanddewi Felffre ar ddydd Iau rhwng 10am a 4pm. Fel arall, gallwch gysylltu ag ef dros y ffôn ar 07923 887 119 neu drwy'r e-bost yn A40enquiries@arup.com.

Gellir cael mwy o wybodaeth ar ein gwefan:

https://llyw.cymru/gwelliannaur-a40- penblewin-i-groesffordd-maencoch-trosolwg

# THANK YOU

Thank you for your time today, we hope you found the information helpful.

If you haven't found what you are looking for, or still have any questions, please speak to a member of our project team before you leave.

## We would like your views

This consultation is being held to seek your views on the proposed improvements between Penblewin Roundabout and Redstone Cross on the A40, Pembrokeshire. We invite you to share your views and provide further feedback, prior to the Welsh Government making a decision on the preferred route. There are several ways you can comment:

Complete the consultation response form provided at the end of the consultation document which you can return to us at: FREEPOST RTLG-KURC-ELKJ, Infrastructure Projects – Transport Division, WELSH GOVERNMENT, CATHAYS PARK, CARDIFF CF10 3NQ

Or email A40enquiries@arup.com

Complete the response form online: https://gov.wales/a40-penblewin-to-redstone-cross-improvements-0

## How to find out more

Martin Gallimore (Public Liaison Officer) would be happy to help with any questions you may have and is available at the Llanddewi Velfrey Village Hall on Thursdays between 10am and 4pm. Alternatively, you can contact him by telephone on 07923 887 119 or by email at A40enquiries@arup.com.

Further information can be found on our website:

https://gov.wales/a40-penblewin-redstone-cross